# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn gysylltiedig â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Dysgu cymdeithasol – Bandura

| Damcaniaethwr/ Damcaniaethwyr | Y prif agweddau ar y dull gweithredu neu'r ddamcaniaeth sy'n gysylltiedig â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| Bandura<br><br>**Geiriau Allweddol:**<br><br>- **Arsylwi**<br>- **Efelychu**<br>- **Modelu**<br>- **Modelau rôl** | Mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio'r ffordd y mae plant yn aml yn arsylwi cyfoedion ac oedolion ac yn modelu ac yn efelychu eu hymddygiadau, eu hagweddau a'u hymatebion emosiynol. Mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol yn ystyried y ffordd y mae ffactorau gwybyddol a'r amgylchedd yn dylanwadu ar ddysgu ac ymddygiad dynol. Mae Bandura yn credu bod tair rhan i ddysgu: gweld, dynwared a modelu. Er mwyn dysgu'n effeithiol, credai Bandura fod yn rhaid i'r broses ddysgu ymgorffori'r egwyddorion canlynol:<br><br>• **Sylw** – bydd effaith negyddol ar ddysgu os na fydd y dysgwr yn cymryd rhan neu os bydd rhywbeth yn tynnu ei sylw.<br>• **Cadw** – caiff gwybodaeth ei storio a gellir ei hadalw yn y dyfodol.<br>• **Atgynhyrchu** – bydd y plentyn yn ymarfer yr hyn y mae wedi'i ddysgu.<br>• **Cymhelliant** – caiff y plentyn ei gymell i ailadrodd yr ymddygiad ar sail yr ymateb pan fydd yn efelychu ymddygiadau.<br><br>Credai Bandura na allai ymddygiadaeth esbonio pob math o ddysgu, a datblygodd ddamcaniaeth a oedd yn gyfuniad o ddamcaniaeth ymddygiadol (lle mae ymddygiad yn ganlyniad i gyflyru), a damcaniaeth wybyddol (sy'n dibynnu ar gof a sylw). Ychwanegodd Bandura elfen gymdeithasol at ddamcaniaethau ymddygiadol fel cyflyru ac atgyfnerthu a chredai fod gwybodaeth ac ymddygiadau newydd yn cael eu datblygu drwy wylio pobl eraill. Drwy arbrawf Dol Bobo, dangosodd Bandura y bydd plant yn copïo ymddygiad treisgar ar ôl ei weld. Ymddygiad wedi'i ddysgu yw hwn. | Credai Bandura y gallai gweld ymddygiad pobl eraill yn cael ei atgyfnerthu neu ei gosbi fod yr un mor effeithiol â phrofiadau plant eu hunain. Mae hyn yn golygu os bydd plentyn yn gweld plentyn arall yn cael gwobr am ymddygiad penodol, y bydd yn ceisio efelychu'r ymddygiad hwnnw i gael gwobr iddo ef ei hun. Bydd damcaniaeth dysgu cymdeithasol yn pwysleisio pwysigrwydd ymarferwyr ac athrawon yn ymddwyn fel modelau rôl cadarnhaol yn y lleoliad neu'r ysgol, gan y bydd plant yn efelychu ymddygiadau pobl eraill ac yn dysgu oddi wrthyn nhw. Bydd athrawon yn modelu cydberthnasau cadarnhaol â chydweithwyr a phlant er mwyn i blant gopïo'r ymddygiad hwn. Byddan nhw hefyd yn modelu moesau da a byddan nhw yn garedig, yn barchus ac yn helpu pobl eraill. Mae arbrawf Dol Bobo yn dangos sut y bydd ymddygiad negyddol yn cael ei gopïo hefyd. Mae gan blant sawl model rôl o'u cwmpas, fel rhieni, cyfoedion ac athrawon yn yr ysgol. Mae'r modelau hyn yn rhoi enghreifftiau o ymddygiad y mae plant yn aml yn eu gweld a'u hefelychu. Gall plant hefyd efelychu ymddygiad pobl enwog fel athletwyr, actorion mewn ffilmiau a sêr pop. |